




Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Bwletin GwE




Rhannwch ein Bwletin â staff eich ysgol ac anogwch eich cyd-weithwyr i ymuno â'n rhestr bostio.



Blwyddyn Newydd Dda

EDRYCHWN YMLAEN I GYDWEITHIO Â CHI YN 2020



Cynnig GwE ar G6

Fel y gwychoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogled.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y ddolen hon a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau yma.

Gall y dyddiadau/leoliadau newid. Edrychwch ar G6 am yr wybodaeth ddiweddaraf cyn i chi fynychu unrhyw ddigwyddiad.

IONAWR 2020	DYDDIAD	LLEOLIAD	CYFRWNG
1C: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu – Diwrnod 1 Cynradd [Cymraeg – Plas Menai]	14/01/2020	Plas Menai, Caernarfon	Cymraeg
Conwy / Dinbych – Cyfarfod Rhwydwaith Saesneg	14/01/2020	Canolfan Fusnes Conwy	Saesneg
1C: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu – Diwrnod 1 Cynradd [Saesneg – Llanellwly]	15/01/2020	OpTIC, Llanellwly	Saesneg
Fflint / Wrecsam – Cyfarfod Rhwydwaith Saesneg	15/01/2020	Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug	Saesneg
Gwynedd / Môn Cyfarfod Rhwydwaith Saesneg	15/01/2020	Warws Werdd, Ciblyn, Caernarfon	Saesneg
1C: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu – Diwrnod 1 Cynradd [Saesneg – Wrecsam]	21/01/2020	Catrin Finch, Wrecsam	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodys am Drawma [Llandudno]	21/01/2020	Venue Cymru, Llandudno	Saesneg
Cymraeg (Uwchradd) – Addysgu a dysgu effeithiol	23/01/2020	Glasdir, Llanrwst	Cymraeg
Llafaredd@GwE CYNRADD [Carfan 3]	27/01/2020	OpTIC, Llanellwly	Saesneg
Hyfforddiant Datguddio [<i>Unearthing</i>] i Ysgolion	31/01/2020	Porth Eirias, Bae Colwyn	Saesneg

CHWEFROR - DIGWYDDIADAU TAN HANNER TYMOR

1U: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu - Diwrnod 1 Uwchradd [Saesneg - Llanellwly]	04/02/2020	OpTIC, Llanellwly	Saesneg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD - Coed y Brenin - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	04/02/2020	Coed y Brenin, Dolgellau	Cymraeg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon - Coed y Brenin - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	04/02/2020	Coed y Brenin, Dolgellau	Cymraeg
Sesiwn galw i mewn [Bryn Eirias, Bae Colwyn]: Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd	04/02/2020	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn	Dwyieithog
1U: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu - Diwrnod 1 Uwchradd [Saesneg - Wyddgrug]	05/02/2020	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Saesneg
GDD - Digwyddiad Effaith ac Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth	05/02/2020	Venue Cymru, Llandudno	Dwyieithog

CHWEFROR - DIGWYDDIADAU TAN HANNER TYMOR [PARHAD...]			
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD - Clwb Golff Nefyn - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	05/02/2020	Clwb Golff Nefyn	Cymraeg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon - Clwb Golff Nefyn - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	05/02/2020	Clwb Golff Nefyn	Cymraeg
1U: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu - Diwrnod 1 Uwchradd [Cymraeg - Plas Menai]	06/02/2020	Plas Menai, Caernarfon	Cymraeg
Cymraeg a Saesneg (Uwchradd) - Meithrin potensial pob dysgwr	06/02/2020	Canolfan Fusnes Conwy	Dwyieithog
Sesiwn galw i mewn [Linden House, Yr Wyddgrug]: Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd	06/02/2020	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma [Wrecsam]	07/02/2020	Canolfan Catrin Finch, Wrecsam	Saesneg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD - Linden House - Saesneg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	10/02/2020	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Saesneg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD - OpTIC- Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	10/02/2020	OpTIC, Llanelwy	Cymraeg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon - Linden House - Saesneg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	10/02/2020	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Saesneg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon - OpTIC- Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	10/02/2020	OpTIC, Llanelwy	Cymraeg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD - Linden House - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	11/02/2020	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Cymraeg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD - OpTIC- Saesneg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	11/02/2020	OpTIC, Llanelwy	Saesneg
Datblygu llafaredd ar draws y cwricwlwm - DIWRNOD 2	11/02/2020	Canolfan Fusnes Conwy	Saesneg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon - Linden House - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	11/02/2020	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Cymraeg
Sesiwn galw i mewn [Caernarfon]: Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd	11/02/2020	GwE, Penrallt, Caernarfon	Dwyieithog
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD - Alyn Waters - Saesneg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	12/02/2020	Alyn Waters, Gwersyllt, Wrecsam	Saesneg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD - Oriel Môn - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	12/02/2020	Oriel Môn, Llangefni	Cymraeg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon - Alyn Waters - Saesneg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	12/02/2020	Alyn Waters, Gwersyllt, Wrecsam	Saesneg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon - Oriel Môn - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	12/02/2020	Oriel Môn, Llangefni	Cymraeg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD - Plas Menai - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	13/02/2020	Plas Menai, Caernarfon	Cymraeg
Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon - Plas Menai - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu	13/02/2020	Plas Menai, Caernarfon	Cymraeg

Rhaglenni Proffesiynol

Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid - Paratoi ar gyfer CPCP

Mae’r rhaglen ddatblygu hon, sy’n para blwyddyn, yn gyfle dysgu proffesiynol cyffrous i arweinwyr ysgol profiadol sy’n dymuno bod yn benaethiaid yn y dyfodol agos. Mae cwblhau’r rhaglen yn ddisgwyliad ar gyfer pob ymgeisydd CPCP y dyfodol. Croesewir ceisiadau gan uwch arweinwyr ysgolion, sydd wedi profi eu gallu, sy’n credu eu bod yn arddangos cyrhaeddiad yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a bod prifathrawiaeth yn gam nesaf realistig iddynt. Dylai ceisiadau gael eu hardystio gan Bennaeth eich ysgol neu gan eich rheolwr llinell, yn dilyn trafodaeth broffesiynol yn seiliedig ar gwblhau Adolygiad o Safonau Arweinyddiaeth (ASA). Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **17 Ionawr 2020 am 1pm**. Cliciwch [yma](#) am ragor o wybodaeth a’r dogfennau perthnasol.

Rhaglen Genedlaethol Newydd ar gyfer Darpar CALU (yn arwain at asesiad CALU)

Gwahoddir Cymorthyddion Dysgu sy’n arwain gweithgareddau ymyrraeth a chefnogaeth i ymgeisio. Cynhelir y rhaglen 4-diwrnod hon dros nifer o fisoedd a bydd Cymorthyddion Dysgu yn cael eu tywys tuag at asesiad CALU. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **10 Ionawr 2020**. Cliciwch [yma](#) am ragor o wybodaeth a’r ffurflen gais.

Cyfarfodydd adolygu Ysgolion Haen 3 Prosiect Asesu Ffurfiannol Rhanbarthol (Shirley Clarke)

Gweler yma ddyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd adolygu prosiect Asesu Ffurfiannol (Shirley Clarke) y rhanbarth. Fel y gwychoch, mae'r cyfarfodydd hyn yn rhan greiddiol o'r prosiect a gofynnir yn garedig i chi wneud pob ymdrech i fynychu.

Ceir:

- manylion dyddiadau a lleoliadau y cyfarfodydd adolygu i gyd (Cynradd ac Uwchradd)
- manylion ynghylch y cynnwys a threfn y cyfarfod

Gofynnwn i chi ddarllen cynnwys yr atodiadau yn ofalus gan fod yma wybodaeth bwysig am yr hyn fydd yn digwydd a'r hyn sydd angen i chi ddod gyda chi i'r cyfarfod.

Rydym yn cynnal y cyfarfodydd adolygu ar wahân ar gyfer y cynradd a'r uwchradd y tro hwn, gan wahodd ysgolion uwchradd Haen 2 i fynychu'r cyfarfodydd uwchradd hefyd er mwyn rhannu profiadau, trafod ffyrdd ymlaen ac ati.

*****NODWCH FOD LLEOLIAD Y CYFARFOD AR GYFER YSGOLION HAEN 3 WRECSAM AR 21/01/2020 WEDI NEWID I YSGOL FICTORIA*****

Prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol GwE a Shirley Clarke

Mae Adroddiad Gweithredu ac Effaith ysgolion Haen 2 bellach wedi ei gyhoeddi. Mae yma negeseuon a chanfyddiadau cadarnhaol iawn. Diolch yn fawr i holl athrawon ac ysgolion y prosiect am eich gwaith a'ch ymrwymiad parhaus.

@GwEGogleddCymru
@shirleyclarke_

CLICIWCH YMA AM GOPI O'R ADRODDIAD



Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol mewn partneriaeth â GwE: DATBLYGU CREADIGRWYDD AR DRAWS Y RHANBARTH

Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn rhaglen ar y cyd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n ceisio hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio mewn ysgolion trwy feithrin creadigrwydd athrawon a dysgwyr er mwyn codi cyrhaeddiad.

[CLICIWCH YMA AM RAGOR O FANYLION](#)

Digwyddiadau Dysgu Digidol Rhanbarthol

1 DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2020

VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Mae cewri'r byd dysgu digidol yn ymweld â Gogledd Cymru! Google, Microsoft, Minecraft a llawer iawn mwy! Ymunwch â ni mewn digwyddiad arbennig i ddysgu mwy am y datblygiadau diweddaraf yn y maes dysgu digidol. P'un a ydych yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg ddigidol i gyfoethogi'r dysgu neu ar gychwyn eich taith ddigidol, bydd rhywbeth defnyddiol ar gael i bawb!

[CLICIWCH YMA AM RAGOR O WYBODAETH AC I GADW EICH LLE](#)



Hwb

GDD - Effaith ac Arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth

DYDD MERCHER, 5 CHWFROR 2020 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, bydd GwE yn cynnal Digwyddiad Ymchwil Addysgol Rhanbarthol drwy gyflwyno Seminar yr *Education Endowment Foundation*.

Bydd y gweithdy yn edrych ar:

- Becyn adnoddau yr EEF: *bridging gap between educational research and classroom practice*.
- *The Sutton Trust* - Mae Pecyn Dysgu ac Addysgu yr EEF - [Teaching and Learning Toolkit](#) - yn crynhoi miloedd o ddarnau ymchwil academiaidd, ac yn eu cyflwyno mewn ffordd ymarferol, hylaw a chadarn.
- Rhannu arferion llwyddiannus ledled y rhanbarth o ran ymyraethau/rhaglenni allweddol a'u heffaith.
- Pwysigrwydd ymyrraeth gynnar yn y dosbarth o ran llythrennedd, rhifedd a chau'r bwlch.

COFRESTRWCH DRWY G6.



Cwrs Sabothol Cymraeg (Lefel Canolradd)

27/04/2020—26/06/2020—CANOLFAN IAITH, YSGOL GLAN CLWYD

Cwrs i athrawon ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg neu athrawon sydd wedi cwblhau Cwrs Sylfaen Sabothol sy'n gallu siarad Cymraeg yn **eithaf** hyderus ond sydd eisiau datblygu eu sgiliau.

Am ragor o wybodaeth am y cwrs, cysylltwch â Chanolfan Bedwyr:



n.h.williams@bangor.ac.uk

neu



01248 383293

DYDDIAD CAU CEISIADAU: DYDD GWENER, 14 CHWFROR 2020

I WNEUD CAIS,
CLICIWCH YMA



Gwahoddiad i Ymuno â Phrosiect Ymchwil 'Standing Together'

CEFNOCI LLESIANT CYMDEITHASOL AC EMOSIYNOL PLANT MEWN YSGOLION CYNRADD

A yw eich ysgol am wella ymddygiad a llesiant disgyblion? Mae GwE yn falch iawn o gael cefnogi prosiect cyffrous a phwysig sy'n edrych ar sut y gellir lleihau bwllo a hybu llesiant disgyblion CA2. Bydd y prosiect *Standing Together* yn treialu effaith rhaglen gwrth-fwllo o'r enw KiVa o'r Ffindir mewn ysgolion yng ngogledd Cymru a Lloegr. Gwelwyd bod KiVa yn effeithiol o ran lleihau bwllo a gwella llesiant disgyblion mewn ysgolion cynradd, ac mae wedi'i chyflwyno mewn mwy na 90% o ysgolion Y Ffindir.

CLICIWCH YMA I DDARLLEN Y LLYTHYR



CLICIWCH YMA AM RAGOR O FANYLION

Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

Cylchlythyr SSCE Cymru - Gaeaf 2019 ★

Cliciwch yma i lawrlwytho copi o gylchlythyr SSCE Cymru [Gaeaf 2019].



Adnodd Cwricwlwm Newydd Arloesol ★

Dyma adnodd Cwricwlwm Newydd arloesol sy'n dod â chyflogwyr o'r sector twristiaeth i'ch ystafell ddosbarth i ysbrydoli, herio ac ennyn brwdfrydedd disgyblion 9 – 11 oed.

Mae'r adnoddau yn tanio chwlfrydedd a chyffro disgyblion ifanc am yr ystod eang o gyfleoedd sydd gan y diwydiant twristiaeth i'w cynnig iddynt yn y dyfodol. Mae'r adnodd hwn wedi'i alinio'n glir a'i fapio i 4 pwrpas a 12 egwyddor addysg y Cwricwlwm Newydd. Mae'n arwain y dysgwyr i ddeall a sylweddoli'r cysylltiad rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu yn y dosbarth a'i werth a'i berthnasedd yn y byd 'go iawn'. Mae'n rhyngweithiol drwy ymchwilio, bod yn greadigol a chysylltiadau â chyflogwyr lleol. Mae'r FFILMIAU dwyieithog o gyflogwyr ar Ynys Môn yn ychwanegu gwerth a pherthnasedd.

ADNODDAU AR GAEL YMA



Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

Gweler isod manylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrwydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:



DYDD MERCHER, 29 IONAWR 2020 - YSGOL GLAN GELE, ABERGELE - 9:30yb - 11:15yb

Mae Ysgol Babanod Glan Gele yn Abergele wedi'i dynodi'n Ysgol Eirioli *Inspire Maths*, ar ôl arddangos addysgu a dysgu ardderchog yn null Mathemateg Singapore gan ddefnyddio'r rhaglen *Inspire Maths*.

Ymunwch â nhw am fore agored, lle cewch wahoddiad i arsylwi gwersi a holi staff.

COFRESTRWCH



LEAP Awstralia 2020

YDYCH CHI'N ARWEINYDD MENTRUS YN Y BYD ADDYSG AC YN CHWILIO AM BROFIAD ARWEINYDDOL GWREIDDOL, BLAENGAR A CHYDWEITHREDOL AR LEFEL RHYNGWLADOL?

Rhaglen tymor byr (2 x 2 wythnos) yw LEAP, ble byddwch yn cysgodi cyd-weithiwr, a chael eich cysgodi, yn eich tro. Caiff aelodau o Awstralia eu paru efo addysgwyr o feddylfryd cyffelyb yn Hemisffer y Gogledd, sy'n gweithio ar lefel broffesiynol debyg, ac sydd â diddordebau personol tebyg. Y prif nod yw dod ag arweinwyr addysg o bedwar ban byd at ei gilydd i drafod yn broffesiynol, a rhannu profiadau. Bydd y dysgu yn ddwfn a chyfoethog, y rhannu yn dreiddgar a'r cyfeillgarwch yn wefreiddiol. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Ruben.Chapela-Orri@cardiff.gov.uk neu emily.daly@internationallinks.co.uk

Erasmus+ 2020

EFALLAI MAI DYMA FYDD EICH CYFLE OLAF i gael DPP wedi'i ariannu yn y Ffindir, Denmarc, Romania, Sbaen, Gwlad Groeg, Gwlad Pwyl, efo rhagor o brosiectau i'w hychwanegu.

Ym mis Mehefin 2019, gwelwyd 10 miliynfed aelod Erasmus+ yn cymryd rhan mewn ymweliad trawswladol. Mae 600,000 o bobl ledled y DU wedi bod yn rhan o ymweliadau Erasmus er 2014. Bob blwyddyn, trefnir cyfleoedd DPP i 500 o athrawon yng Nghymru, ymweliadau trawswladol efo disgyblion cynradd ac uwchradd, a phrosiectau cydlynol efo ysgolion yng Nghymru ar y cyd ag ysgolion, athrawon a disgyblion ar draws Ewrop.

Os hoffech fod yn rhan o geisiadau Erasmus+, cysylltwch â Ruben.Chapela-Orri@cardiff.gov.uk a bydd yntau'n gweithio ar eich tanysgrifiad cyn gynted â phosibl er mwyn i chi allu ymuno.



Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

Mae pwyllgor Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn bwriadu trefnu digwyddiad i ddathlu deng mlynedd ar hugain ers ei sefydlu. Fe'i cynhelir yn yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Llanberis (Ystafell Padarn) ar 8 Gorffennaf 2020. Anfonir gwahoddiadau allan yn y Flwyddyn Newydd. Bydd cynrychiolydd o bob ysgol yng ngogledd Cymru sydd wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth (gan gynnwys yn 2019-20) yn derbyn gwahoddiad.



Diwrnod Agored TEEP - Ysgol Brynrefail

DYDD GWENER, 17 IONAWR 2019

Mae Ysgol Brynrefail wedi llwyddo i ennill statws achrededig TEEP (Teacher Effective Enhancement Programme). Cynllun SSAT yw hwn sydd yn seiliedig ar ddulliau dysgu ac addysgu cyffrous, perthnasol ac effeithiol. Mae'r dulliau addysgu hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion pedagogiaidd rhagorol sydd yn sylfaen i'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

[CLICIWCH YMA AM RAGOR O FANYLION AC I GOFRESTRU](#)



YSGOL BRYNREFAIL

teep ambassador school

teacher effectiveness enhancement programme®

UCHELGAIS

PARCH

DYCNWCH

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi [yma](#)

Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

